

2012 Rhif 273 (Cy. 43)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

**Gorchymyn Cefnffordd yr A465
(Cyfnewidfa Glyn-nedd, Castell-
nedd Port Talbot i Gylchfan Rhigos,
Rhondda Cynon Taf) (Cyfyngiad a
Gwaharddiad Traffig Dros Dro)
2012**

Gwnaed 3 Chwefror 2012

Yn dod i rym 13 Chwefror 2012

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), hyn yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 13 Chwefror 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyfnewidfa Glyn-nedd, Castell-nedd Port Talbot i Gylchfan Rhigos, Rhondda Cynon Taf) (Cyfyngiad a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 13 Chwefror 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (*“the lengths of the trunk road”*) yw'r darnau hynny gefnffordd yr A465 rhwng Cyfnewidfa Glyn-nedd ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chylchfan Rhigos ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, heblaw cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

5. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad neu'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

3 Chwefror 2012

G R Morgan

GARETH MORGAN

Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith

Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pŵerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1 Gwahardd Cerbydau

Y darn o'r gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o ddechrau trwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd i'w chydgysylltiad â chylchdro Cylchfan Rhigos.

Hyd cyfan y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd.

Y darn o'r gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chydgysylltiad â chylchdro Cylchfan Rhigos i ddiwedd trwyniad ffisegol tua'r gorllewin y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd.

ATODLEN 2 Terfyn Cyflymder 50 mya

Y darn o'r gerbyttfordd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o ddechrau trwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd i'w chydgysylltiad â chylchdro Cylchfan Rhigos.